# BUDDION CYFLYM A NWYDDAU TRAUL



ADEILADAU

ECO CHURCH
AN A ROCHA UK PROJECT

ALLCHURCHES TRUST LIMITED®
OWNERS OF ECCLESIASTICAL INSURANCE GROUP

www.ecochurch.arocha.org.uk



ADEILADAU

# Buddion cyflym a nwyddau traul

PAM?

'Mae popeth bach yn helpu!' Dyma rai gweithredoedd bach, wedi eu tynnu o'r papurau adnoddau eraill a fydd yn helpu i ostwng eich ôl-troed carbon fel eglwys – ac arbed arian hefyd.

SUT?

**GWRESOGI**

Mae gwresogi fel arfer yn cyfrif am fwy na 50% o ôl-troed carbon a biliau egni'r eglwys, felly dyma rai ffyrdd o sicrhau buddion cyflym.

1. Thermostat: a yw'r tymheredd wedi ei osod yn briodol ar gyfer gwahanol weithgareddau a grwpiau defnyddwyr?
2. Amseru: ydych chi'n cofio addasu'r amserlen wresogi ar gyfer newidiadau mewn gweithgareddau, wythnosau neu gyfnodau gwyliau?
3. Amser rhedeg: ydych chi'n diffodd y bwyler ar yr adeg gywir? (Efallai bod hynny cyn diwedd y gwasanaeth oherwydd bod yr ystafell yn cymryd amser i oeri.)
4. Tymhorau: ydych chi'n mynd ati i newid yr amseriadau a'r thermostat gyda'r newid yn y tymhorau?
5. Gwresogi rhannol: allwch chi roi falfiau thermostatig ar reiddiaduron mewn ystafelloedd y mae llai o ddefnydd arnyn nhw?
6. A oes gan rywun y cyfrifoldeb am adolygu a gweithredu'r uchod yn rheolaidd?

Mae'n bwysig peidio gwastraffu gwres a'i gymryd at y bobl sydd ei angen, pan maen nhw ei angen, felly gwelwch ein papur ar ynysu a diogelu rhag drafftiau:

https://www.london.anglican.org/kb/heating-and-energy-use/

https://www.cibsejournal.com/general/tidings-of-comfort-and-joy-cost-efficient-church-heating/





# Buddion cyflym a nwyddau traul

**GOLAU**

Mae'n anhygoel cymaint yn fwy effeithlon yw'r LED o'i gymharu â mathau cynharach o oleuadau. Os byddwn ni'n esbonio'r gwahaniaeth yn nhermau'r car, mae'n gynnydd mewn milltiroedd-yr-alwyn a fyddai ymhell y tu hwnt i allu unrhyw wneuthurwr ceir. Trwy newid eich bylbiau golau arferol am rai LED gallwch gael yr un lefel o oleuni ond byddwch yn gostwng yr egni a ddefnyddiwch o fwy nag 80%. Rydym yn ystyried mwy o newidiadau mawr mewn goleuo yn ein papur am oleuadau: https://energysavingtrust.org.uk/getting-best-out-your-led-lighting/

Oes gennych chi bolisi llifoleuadau? Gall hyn fod yn fater anodd. Mae llawer o eglwysi eisiau defnyddio llifoleuadau i ddangos bod yr eglwys yn gymuned fyw, i dynnu sylw at nodweddion pensaernïol neu i wneud i ardal deimlo'n fwy diogel. Mae'r agenda awyr dywyll yn awgrymu y dylem ni gyfyngu ar y goleuadau yn y nos er budd iechyd anifeiliaid a phobl, felly ystyriwch gytuno ar bolisi sy'n amcannu i gydbwyso'r ddau. Wrth gwrs, mae defnyddio LEDs mewn llifoleuadau yn gostwng yr effaith garbon yno hefyd.

Neu, yn syml iawn, beth am ddiffodd neu bylu'r goleuadau yn amlach?

**PAPUR**

Mae buddion ailgylchu papur yn enfawr, ac mae'n cymryd llawer llai o adnoddau i weithgynhyrchu (ail weithgynhyrchu) papur nag y mae i wneud papur o ddefnyddiau crai: llai o ddŵr, llai o egni, llai o gemegau a llai o goed. Felly, gwnewch fwy na dim ond sicrhau eich bod yn ailgylchu eich papur gwastraff - prynwch gynhyrchion papur wedi eu hailgylchu ar gyfer papur toiled, gofynion y gegin/bwyta, at ddefnydd y swyddfa neu ddefnyddiau wedi eu hargraffu:

https://paper.org.uk/CPI/Content/Information/Myths-and-Facts.aspx

https://www.which.co.uk/news/2021/02/recycled-paper-and-bamboo-toilet-tissue-subscription-services-what-are-the-options/



ADEILADAU

# Buddion cyflym a nwyddau traul

**CWPANAU TAFLADWY**

Mae'r pandemig Covid-19 wedi cynyddu'r defnydd eang o gwpanau ailddefnyddadwy personol. Os byddwch chi'n golchi eich llestri yn iawn gall y rhain fod yn ddiogel rhag Covid, ond mae'n ymddangos bod cwpanau tafladwy yn mynd i fod yma am sbel. Yn hanesyddol, mae llawer ohonyn nhw wedi bod yn anodd eu hailgylchu, felly chwiliwch am yr amrywiaeth cynyddol o gwpanau tafladwy un defnydd y gallwch eu compostio neu sy'n fioddiraddadwy: https://www.vegware.com/uk/catalogue/double_wall_cups/

https://kingdomcoffee.co.uk/disposables-cleaning/disposable-paper-cups?type=142

Osgowch ewyn styro – dydy hwn ddim yn diraddio ac, er bod modd ei ailgylchu mewn egwyddor, anaml iawn y mae'n cael ei ailgylchu am fod y prosesau'n gymhleth. Yn debyg i cling ffilm, bydd yn dal i fod yn y safleoedd tirlenwi pan ddaw Iesu yn ei ôl.

Os ydych chi'n defnyddio coffi ffres yn yr eglwys, gallwch ailgylchu'r coffi mâl fel compost neu daeniad ar yr ardd.

**STORIO BEICIAU**

Bydd cael rhywle diogel a sych i storio beic yn annog mwy o bobl i seiclo yn hytrach na gyrru i weithgareddau'r eglwys. Os na allwch chi greu eich lle storio beiciau eich hun, a oes eiddo cyfagos a fyddai'n barod i roi lle i chi eu storio? Neu efallai y bydd eich cyngor yn barod i osod storfa ar y stryd y gallwch ei chloi?

**GEFEILLIO**

Mae gefeillio'r biniau neu'r toiledau yn eich eglwys yn gallu bod yn ffordd hwyliog o godi ymwybyddiaeth yn fyd-eang o broblemau glanweithdra a llygredd: https://www.bintwinning.org/ https://www.toilettwinning.org/

*Nodwch: Ni all yr Eglwys Eco argymell unrhyw gwmnïau cyflenwi; rydym wedi enwi rhai uchod i roi syniad i chi o beth sydd ar gael*



ADEILADAU

# Buddion cyflym a nwyddau traul

**CYNHYRCHION GLANHAU**

Mae cannydd, hylif glanhau'r draen, chwistrell amlbwrpas, ac hyd yn oed sebon golchi llestri, oll wedi eu cynllunio i ladd germau. Mae'r gweddillion yn mynd i lawr ein draeniau i afonydd a moroedd, gan gronni tocsinau'n raddol a niweidio'r bywyd gwyllt sy'n byw yno. Mae llawer ohonyn nhw hefyd yn cynnwys cynhwysion sy'n niweidiol i bobl ac yn adnabyddus am achosi llid i'r ysgyfaint:

https://www.wildlifetrusts.org/actions/watch-what-you-wash-away

https://www.thoracic.org/about/newsroom/press-releases/journal/2018/women-who-clean-at-home-or-at-work-face-increased-lung-function-decline.php.org

Does dim safon eto (2021) ar gyfer cynhyrchion eco-gyfeillgar, ond mae digonedd o gynhyrchion effeithiol sy'n llawer mwy iach i chi ac i'r amgylchedd. Rhowch gynnig ar gyflenwyr fel https://www.ethicalsuperstore.com/category/cleaning-and-household/ neu https://biod.co.uk/.

Mae werth ystyried cynhyrchion glanhau naturiol sydd o amgylch y tŷ (sudd lemwn, finegr, soda pobi) os ydych chi'n hyderus y byddan nhw'n cael eu defnyddio'n gywir yng nghyd-destun eich eglwys: https://thegreenparent.co.uk/articles/read/make-your-own-cleaning-products#

Os ydych chi'n cyflogi glanhawyr allanol, ystyriwch eu hamodau a thelerau: ydyn nhw'n derbyn cyflog byw teg y mae'r cwmni'n ei ddatgan yn gywir i'r awdurdodau treth?

## DEFNYDDIAU DARLLEN HIRACH AC ADNODDAU ERAILL

Mae Nigel Walters, sy'n bensaer cadwraeth, yn sôn am rai o'r heriau i adeiladau treftadaeth yma:

http://www.churchbuildingprojects.co.uk/sustainability/

Mae gan Eglwys Loegr nifer o adnoddau yn rhan o'i rhaglen 'Llwybr Ymarferol at y Sero Net'. Maen nhw'n gymwys i bob enwad.



ADEILADAU

# Buddion cyflym a nwyddau traul

Mae'r daflen hon yn crynhoi nifer o ffyrdd o sicrhau buddion hawdd: https://www.churchofengland.org/resources/churchcare/net-zero-carbon-church/practical-path-net-zero-carbon-churches

Mae'r recordiad gweminar hwn yn trafod 'Cymhennu a Sicrhau Buddion Cyflym': https://www.youtube.com/watch?v=1XlFuU27xY0

STRATEGIC DEVELOPMENT GOALS

12 RESPONSIBLE CONSUMPTION AND PRODUCTION